## Rhaglen Ryngwladol yr OECD ar gyfer Asesu Myfyrwyr (PISA) yng Nghymru

## Hysbysiad Preifatrwydd

### Beth yw PISA

Mae Cymru, ynghyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

### Cymryd rhan yn PISA

Mae cymryd rhan yn yr astudiaeth yn fater gwirfoddol, ond wrth cytuno i gymryd rhan, bydd y data personol a ddarparwyd yn cael eu defnyddio gan Llywodraeth Cymru (fel y rheolwr data) yn y ffordd canlynol. Diben yr astudiaeth PISA yw meincnodi ein haddysg a'n polisi yn erbyn gwledydd eraill, adolygu cryfderau a gwendidau ein system mewn cyd-destun rhyngwladol, a monitro tueddiadau dros amser yn ôl mesurau annibynnol. Felly, byddwn yn prosesu'r eich data personol fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus ac o'r awdurdod swyddogol a roddwyd inni, ac yn nhermau'r data categori arbennig, ar gyfer dibenion ystadegol a gwneud gwaith ymchwil.

### Sut y byddwn yn defnyddio data personol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gytundeb rhannu gydag Adran Addysg y DU (DfE) ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon. Mae Pearson UK (mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Rhydychen) wedi'i benodi fel y contractwr. Bydd y Sefydliad yn prosesu'r wybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r data am bwrpasau ymchwil a dadansoddi ystadegol ymwneud â’r system addysg yng Nghymru yn unig. At ddibenion PISA, bydd Llywodraeth Cymru a Pearson/Prifysgol Rhydychen yn cysylltu'r wybodaeth â gwybodaeth arall sydd gan Llywodraeth Cymru eisoes fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a chanlyniadau Cyfnod Allweddol 4. Pwrpas hyn yw caniatáu dadansoddiad i well deall sut mor effeithiol ydy ein polisïau addysg.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n cael unrhyw ddata nes bod yr asesiad PISA wedi'i gwblhau a'r adroddiad wedi'i gyflwyno. Ar ôl hynny, mae'r data personol yn cael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru gan y Rheolwr Rhaglenni Cenedlaethol a apwyntiwyd. Nid yw Pearson/Prifysgol Rhydychen yn cadw unrhyw wybodaeth unwaith y bydd y data wedi'u trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Pan fydd y gwaith cysylltu hwn wedi digwydd, mae'r data yn cael ei drin cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl fel nad oes modd adnabod unrhyw fyfyrwyr unigol nac ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Ni fydd Llywodraeth Cymru (na chontractwyr a benodwyd ganddi) yn rhannu ag unrhyw drydydd partïon unrhyw wybodaeth a fyddai'n ei gwneud yn bosibl adnabod unigolion sy'n cymryd rhan yn PISA, oni bai

bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.  Mae'r data dienw'n cael eu cadw am gyfnod amhenodol ar gyfer dadansoddi tueddiadau.

Bydd data hefyd yn cael eu rhannu gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ond set o ddata dienw yn unig y bydd yn ei chael, er mwyn darparu ystadegau cyfanredol.

**Diogelwch a Chyfrinachedd**

Bydd unrhyw ddata personol a gesglir gan Lywodraeth Cymru (a sefydliadau sy'n gweithredu ar ei rhan) yn cael eu trin mewn modd diogel a chyfrinachol.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i wneud y canlynol:

- Gweld y data personol rydyn ni'n eu prosesu amdanoch chi;
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- Gwrthwynebu prosesu'r data - o dan rai amgylchiadau;
- Gofyn i'ch data gael eu 'dileu' - o dan rai amgylchiadau;
- Cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data (manylion cyswllt isod).

**Sut i leisio pryder**

Os ydych yn dymuno cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch eich hawliau o dan deddfwriaeth diogelu data, cewch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru.

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10  3NQ

E-bost: **DataProtectionOfficer@llyw.cymru**

Fel arall, efallai y bydd yn well gennych gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
2il Lawr
Churchill House
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs:  0292 067 8399

E-bost: wales@ico.org.uk

Gallwch hefyd gysylltu â:

Glynis Wilson
Pennaeth Busnes y Llywodraeth ar gyfer yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10  3NQ

E-bost: **Glynis.Wilson@llyw.cymru**